

## Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 154

Rhif 47

Tachwedd 25, 2021

50c.



## Prosiect Tŷ Croeso – Bethlehem Newydd yn arloesi a buddsoddi

Yn dilyn cyfyngiadau'r clo mawr, sylweddolodd Bethlehem Newydd, Pwlltrap, Sanclêr bod rhaid newid darpariaeth bresennol yr eglwys. Gwelwyd bod angen ymestyn allan i'r gymuned a'i gwahodd i mewn i gymdeithas y capel yn groesawgar. Penderfynwyd ehangu'r gwaith dyngarol a wnaed eisoes drwy gynnig cymorth i'r anghenus yn lleol.

### Prosiect pum mlynedd

Fe'm penodwyd i, Annalyn Davies, yn swyddog cymunedol er mwyn cydlynu'r gwaith gan wneud cysylltiadau gyda'r gymuned a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect sydd wedi ei enwi yn Tŷ Croeso. Bu'r capel yn llwyddiannus i dderbyn nawdd o dan Rhaglen Arloesi a



Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr er mwyn cyflogi swyddog am bum mlynedd a maent yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth yma. Yr wyf yn falch iawn i fod yn rhan o'r gwaith hwn ar adeg mor gyffrous.

### Ffrydio oedfaon o'r capel i'r cartref

Cam cyntaf y prosiect fydd trawsnewid tu fewn yr adeilad gan osod technoleg gyfoes i mewn i gefnogi'r oedfaon ac fel bod modd i ffrydio oedfaon i gartrefi pobl na fedrant fynychu'r capel. Ariennir y gwaith hwn gan y capel. Pan geir y caniatâd priodol, bwriedir newid llawr isaf yr adeilad gan osod cadeiriau esmwyth yno; cynnwys cegin gyda'r bwriad o wahodd y gymuned i mewn i awyrgylch groesawgar a chysurus lle bydd modd cael paned a chlonc. Gobeithir y bydd mudiadau eraill yn gwneud defnydd o'r adeilad tra y byddwn ni'n sicrhau bydd ei brif bwrpas yn dal i fod yn addoldy.

### Cyrchfan gymunedol

Ymgyrch gyntaf Tŷ Croeso oedd apêl diolchgarwch i gasglu nwyddau ymolchi ar gyfer Lloches Menywod Caerfyrddin. Agorwyd drysau'r capel am ddwy awr ar fore pedwar dydd Sadwrn yn ystod mis Hydref gan wahodd y gymuned i ddod a'u nwyddau. Gosodwyd basged yn siop Pethau Olyv yn Sanclêr i dderbyn nwyddau yn ogystal ag yn siop y pentref yn Bancyfelin. Bu'r ymateb yn anhygoel fel y gwelir yn y ffoto. (Mae Annalyn ar y chwith yn y llun.) Bu'n llwyddiant ysgubol er budd y lloches a hefyd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Prosiect Tŷ Croeso. Mae yna gyffro yn y gymuned leol a braf gweld bywyd newydd o weithgarwch yn digwydd yng nghapel Bethlehem Newydd

Credwn fod yna gyfle gwych yma i gryfhau'r weinidogaeth yn lleol gan wneud cyfraniad pwysig i'r gymuned hefyd. 'Peidiwch â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedi'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond i ni beidio â llaesu dwylo.' (Galatiaid 6:9)

**Annalyn Davies**  
Swyddog Cymunedol

[Dyma enghraifft wych o sut y gellir manteisio ar y rhaglen Arloesi a Buddsoddi i weithredu'r Efengyl mewn ffyrdd gwahanol trwy ymestyn allan i'r gymuned o gwmpas – Golygydd]



# Addysg ddiwinyddol ar gyfer 'Economi Bywyd'

Beth amser yn ôl ymddangosodd sawl ysgrif yn *Y Tyst* gan Fiona Gannon a Richard Morgan. Bu'r ddau yn bresennol mewn tair cynhadledd a drefnwyd gan ranbarthau Ewrop a'r Caribî o CWM gyda'r bwriad o ystyried y posibiladau o lunio pensaernïaeth ryngwladol ariannol ac economaidd newydd. Bu'r trafodaethau'n seiliedig ar wrthod y gyfundrefn ariannol ac economaidd sydd yn rheoli ein bywydau ar hyn o bryd gan ei bod yn ymelwa ac yn dinistrio creadigaeth Duw. Y gofidiau mwyaf yw'r cynnydd mewn anghyfartaledd ac mewn niwed i'r amgylchedd. Erbyn hyn mae Adran Dinasyddiaeth yr Undeb wedi mabwysiadu llawer o'r hyn a ddaeth allan o'r cynadleddau hyn, ac mae gweithgor ar hyn o bryd yn paratoli dogfen a ddaw i sylw'r eglwysi yn y man.

## Economi bywyd

Yn y cyfamser, ac yn dilyn y cynadleddau ar draws y byd (deuddeg ohonynt rhwng 2015 a 2019) gwelodd CWM yr angen am ffyrdd o addysgu diwinyddion ac arweinwyr eglwysig yn yr ymwneud â'r dadleuon hyn. Daeth tîm o arbenigwyr ynghyd i lunio cwricwlwm ar gyfer addysg ddiwinyddol yn canolbwyntio ar y syniad o 'economi bywyd'. Daeth yr aelodau o Affrica, Asia, yr Unol Daleithiau, Ewrop, ardaloedd y Môr Tawel a'r Caribî. Fel cam cyntaf cyflwynir y cwricwlwm hwn ym mhrifysgolion yn Ffiji, y Caribî ac ynysoedd y Pilipinas. Yn yr ysgrif hon Richard Morgan sy'n cyflwyno peth gwybodaeth am y cam pwysig hwn ac am gynnwys y cwricwlwm.

Mae i'r cwricwlwm dair uned:

### Uned 1

Adnabod arwyddion yr amseroedd a dadansoddi'r gyfundrefn gyfoes. (6 modiwl)

### Uned 2

Meddwl am ffyrdd gwahanol o drefnu economi'r byd. (6 modiwl)

### Uned 3

Codi o farwolaeth i fywyd, byw allan 'y nefoedd newydd a'r ddaear newydd.' (5 modiwl)

### Uned 1

Dadansoddiad o'r system economaidd gyfoes gan ddefnyddio persbectifau



critigol, beiblaidd a diwinyddol. Rhoddir sylw i gyfalafiaeth fyd-eang a'i oblygiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ynghyd â'r dadleuon anodd rhwng crefydd a chyfalafiaeth. Rhoddir sylw hefyd i'r angen am newid gydag ymrwymiad i hybu cyfiawnder yn ein hymwneud â materion economaidd ac amgylcheddol. Mae'r pwyslais ar gyfiawnder yn ddealladwy gan ei fod mor ganolog i'n ffydd.

Mae i'r uned chwech o fodiwlau. Mae'r pedwar cyntaf yn ymwneud â datblygiad cyfalafiaeth ac yn dangos yn glir sut y mae'r datblygiad hwn wedi arwain at fwy o gyfoeth (i ganran fechan o bobl y byd), mwy o dlodi cymharol (i fwyafrif o bobl y byd) a mwy o ddinistr amgylcheddol (i bawb ond bod y canlyniadau yn drymach i'r tlawd). Mae'r pumed modiwl yn dadansoddi'r berthynas rhwng crefydd a chyfalafiaeth. Y brif thema yw bod Cristnogaeth wedi cynorthwyo'r twf mewn cyfalafiaeth a neo-ryddfrydiaeth. Ond y mae yma hefyd sôn am y traddodiad o Gristnogion yn herio cyfalafiaeth. Faint bynnag yr herio a gafwyd ni lwyddwyd i liniaru effeithiau cyfalafiaeth. Rhoddir sylw hefyd i botensial y mudiad amlgrefyddol o ran hybu'r ddadl dros fwy o gyfiawnder economaidd. Mae'r chweched modiwl yn yr uned hon yn galw arnom i ailddarllen ein Beibl yn nhermau'r pŵer i hybu trawsnewid cymdeithasol ac i ddirnad unwaith eto beth sydd gan y Beibl i ddweud am gyfiawnder economaidd. Yn y modiwl hwn rhoddir sylw arbennig i syniadau diwinyddiaeth rhyddhad sydd â'u gwreiddiau yn America Ladin oddeutu canol y ganrif ddiwethaf.

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

## 'Ar y Cyrion'

Pan fo'r byd yn dywyll, dywyll  
A'm cwch ymhell o'r lan,  
Pan fo'r ddaear oddi tanaf



Yn suddo, a minnau'n wan;  
Fe welaf law'n ymestyn,  
Yn cynnig rhywbeth prin,  
A theimlaf wreichion gobaith  
Yn rhoddi hyder im.

Fe fûm, do, ar y cyrion,  
Yn wrthun i'r cyfryw rai;  
Ni chefais le'n y canol,  
Ai fi oedd ar fy mai?  
Ond cefais gyda'r Iesu  
Brofi y nefol ias,  
Mae'n derbyn pob pechadur  
Yn llawn a'i wyrthiol ras.

Diolchaf a diolchaf  
Ei fod yn f'adnabod i,  
Yn cofio byth fy enw  
Drwy aberth Calfari.  
Ac wrth basio'r gwael ddihiryn  
Dros ffin y draw-fan-draw,  
Fe groesaf innau ato  
Ac estyn iddo'm llaw.

Sian Meinir

## Glasgow ac Efailwen

Mae Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli yn cwrdd yng Nghaffi Beca, Efailwen ar yr ail fore Mawrth



o bob mis. Daw gweinidogion o bob enwad ynghyd o Sir Benfro a'r siroedd cyfagos i gymeryd rhan mewn trafodaethau ac i fwynhau cymdeithas â'i gilydd.

Gan fod cyfarfod Tachwedd yn cyd-daro â chynhadledd COP26 yn Glasgow, gwahoddwyd y Parchg Gethin Rhys, Swyddog Polisi Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cytûn i siarad â ni yn Efailwen yn fyw o Glasgow drwy wyrth y dechnoleg rithiol.

Cafwyd sgwrs ddifyr iawn gan Gethin yn ôl ei arfer, wrth iddo rannu â ni ei argraffiadau o holl weithgarwch yr wythnos gan ein goleuo yn ei ffordd fyrlymus a dealladwy arferol am faterion allweddol a phwysig.

Rydym fel Cymdeithas Gweinidogion yn ddiolchgar iawn i Gethin am roi o'i amser i ni. Edrychwn ymlaen at glywed argraffiadau pellach ganddo wedi i'r gynhadledd dod i ben.

Beti-Wyn James



# Yr Adran Gydenwadol

## Taith drwy'r Adfent: adnoddau ar y cyfryngau cymdeithasol i'w rhannu yn rhad ac am ddim

Wrth i ni nesu at gyfnod yr Adfent mae gan Gyngor yr Ysgolion Sul nifer o adnoddau y gellir eu rhannu ar eich tudalennau Facebook fel gofalaethau ac fel unigolion. Bydd hon yn ffordd hwylus o rannu'r newyddion da am obaith a goleuni'r Nadolig dros y we, a hynny mewn cyfnod o'r flwyddyn a all fod yn dywyll a diobaith i lawer.

Yn ystod y mis nesaf, cyhoeddir pum adnodd ar ein hamrywiol dudalennau Facebook y gallwch eu rhannu â'ch aelodau a'ch ffrindiau:

- Gair o Weddi – gweddi newydd bob dydd
- Beibl.net – adnod newydd bob dydd
- Emynau Gobaith – carol Gymreig draddodiadol bob dydd
- Cyngor Ysgolion Sul – myfyrdod a gweddi bob wythnos
- Cristogaeth Cymru / Beibl Byw – coeden Jesse

Bydd llawer yn gyfarwydd â'r syniad o goeden Jesse – cyfres o ddarlenniadau ac adnoddau sy'n ein harwain yn ysbrydol at y Nadolig. Bob dydd cyhoeddir taflen i deuluoedd, gyda gweithgaredd a llun, a myfyrdod pwrpasol. Dyma enghraifft o'r un cyntaf isod:



### Diwrnod 01

#### DARLLEN:

Eseia 11:1-2: Cangen Fechan  
Ond bydd brigyn newydd yn tyfu o foncyff Jesse,  
a changen ffrwythlon yn tyfu o'i wreiddiau.  
Bydd ysbryd yr ARLWYDD yn gorffwys arno:

ysbryd doethineb rhyfeddol,  
ysbryd strategaeth sicr,  
ysbryd defosiwn a pharch at yr ARLWYDD.

#### GWRANDEWCH:

Amser maith yn ôl, gorfodwyd pobl yr Arglwydd i adael eu cymdogaeth ac anfonwyd hwy i fyw yn rhywle arall. Roedd bywyd yn galed ac yr oedd eu cymdogion newydd yn gas. Nid oedd pobl yr Arglwydd yn garedig chwaith. Roedd fel nad oedd unrhyw un yn malio am neb ond nhw eu hunain. Roedd rhai plant bach heb rieni, a doedd neb yn gofalu amdanynt. Roedd rhai pobl oeddrannus heb deulu a doedd 'na neb yn galw i'w gweld.

Roedd Duw wedi cael digon ar yr ymddygiad yma. Mae'n gofalu am bobl ac mae eisiau iddynt hwythau ofalu am ei gilydd! Felly dywedodd wrth ei bobl ei fod am ddod â hyn i ben, yn union fel petaech yn torri coeden anferth i lawr. Cyn gynted ag y mae'r goeden yna wedi ei thorri, dyna'r diwedd. Mae'n stopio tyfu.

Ond addawodd Duw: bydd cangen fechan yn tyfu o fonyn marw'r goeden. Byddai blaguryn yn dechrau tyfu. Ni fyddai pethau'n farw wedyn.

Iesu ydi'r gangen fechan yna Mae'n dod o fonyn coeden ei hen gyndad, Jesse. Yn

### Carolau Gobaith

**Dyma Geidwad i'r colledig,  
Meddyg i'r gwywedig rai;  
dyma un sy'n caru maddau  
i bechaduriaid mawr eu bai;  
diolch iddo  
byth am gofio llwch y llawr.**

Morgan Rhys



ystod gweddill yr Adfent rydym am glywed mwy o straeon am bobl yn hanes teulu'r Iesu a'r modd y gwnaethant helpu Duw i ddod â bywyd newydd i'w bobl.

### YSTYRIWCH:

Ydych chi erioed wedi gweld blaguryn newydd yn tyfu o hen goeden? Sut mae eich calon yn teimlo pan ydych yn gweld planhigion newydd yn tyfu yn y gwanwyn?

### GWEDDŴCH:

Arglwydd, rwyf yn rhoi gobaith i ni. Diolch am roi Iesu i ni fel tyfiant newydd yn y gwanwyn. Roi di gymorth i roi sylw iddo yn ystod yr Adfent yma? Amen.

Digon o ddewis felly – y cyfan yn rhad ac am ddim! Gobeithio y medrwn ni i gyd fanteisio ar yr adnoddau hyn dros gyfnod yr Adfent, gan geisio llenwi Facebook a Twitter efo gobaith a goleuni geni Iesu yn Waredwr y byd.

### S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

**Sul, 28 Tachwedd, am 7.30yh (aiddarlledir y Sul canlynol am 11.30yh)**  
Ar ddechrau cyfnod yr Adfent, bydd Lisa yn cwrdd â'r Parch Stuart Elliott yn Eglwys y Santes Fair, Betws-y-coed, i ddysgu mwy am bwysigrwydd y gannwyll yn ystod y cyfnod arbennig yma.  
Am gopi digidol o gylchlythyr mis Tachwedd, cliciwch ar y ddolen:  
<https://spark.adobe.com/page/oucKNip3L8Cr/>

### BBC radio cymru

**Sul, 28 Tachwedd – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp**

Modlen Lynch fydd yn cyflwyno'r emynau ac yn trafod cyfraniad merched i'n hemynyddiaeth

**Sul, 28 Tachwedd, Sul Cynta'r Adfent – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp**

Mae Suliau'r Adfent yn gyfle i ni ymweld â rhai o'r gwledydd Celtaidd, gan ddechrau ag oedfa dan arweiniad Sarah Rowland Jones, deon Tyddewi.

# Cyhoeddi dwy gyfrol am fywyd a gwaith y seiciatrydd adnabyddus David Enoch


## Hanes taith bywyd unigryw

Yn 95 mlwydd oed, mae'r seiciatrydd Dr David Enoch, sy'n adnabyddus ledled y byd, newydd gyhoeddi ei hunangofiant. Mae *Enoch's Walk – Ninety Five Not Out: Journey of a Psychiatrist* yn cofnodi hanes bywyd rhyfeddol y seiciatrydd Cristnogol. Manylir ar bum brif elfen ei fywyd, fel meddyg, seiciatrydd, pregethwr, darlledwr ac awdur – gan ddechrau â'i wreiddiau yn Sir Gaerfyrddin. Mae Dr David Enoch wedi bod ar flaen y gad gyda digwyddiadau cymdeithasol, crefyddol a meddygol, sy'n gwneud y cofnod hwn o lygad y ffynnon yn un pwysig yn hanes yr unfed ganrif ar hugain. Ar ben hynny, mae'n adrodd stori ei fywyd yn ddiflwyn ar dafod. Mae'n disgrifio'i hun fel un sy'n benderfynol o bontio'r bwlch rhwng ffydd a meddygaeth.

Yn *Enoch's Walk* mae'n cofio taith annisgwyl i India, lle cafodd ei leoli yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae'n cofio sefyll ac edrych ar dirlun syfrdanol mynyddoedd gogledd-orllewin India yn 1945 ac yntau ar y pryd yn 18 oed, yn Gristion angerddol oedd newydd ddod o'r pentref lle y'i magwyd, sef Pen-y-groes, ger Rhydaman, yn fab i löwr o orllewin Cymru.

Ar ôl pedair blynedd yn India, dychwelodd i Gymru ac fe wnaeth benderfyniad a gafodd effaith fawr ar ei ddyfodol. Derbyniodd gyngor gan ddau fentor – Tom a Rae, prifathro a phennaeth ieithoedd modern yr ysgol ramadeg. Fe welodd y ddau yr effaith a gafodd profiadau India arno ef a'i ffrindiau ac awgrymu iddo mai meddygaeth fyddai'r dewis gorau iddo, yn hytrach na hyfforddi i fod yn weinidog.

Fe gymhwysodd Dr David Enoch fel meddyg yn Ysbyty St Thomas, Llundain. Yn dilyn hyn



aeth ymlaen i ddilyn gyrfa ddisglair mewn seiciatreg ac roedd yn flaenllaw yn y gwaith o geisio dynoli'r maes. Mae wedi bod yn llais amlwg a chyson dros gael cydnabyddiaeth a thriniaeth briodol i rai sydd â salwch meddwl.

## Diolch am destun diolch

Yn ddiweddar hefyd cyhoeddwyd *Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl, a Chymwynas Fawr Dr David Enoch* gan Robin Gwyndaf.

Meddai'r awdur:

Un rheswm paham y dewisais roi diwyg hardd i'r gyfrol, beth bynnag y gost, yw oherwydd mai 'diolch am destun diolch' yw'r brif thema. Yn wir, dyna bennawd hanner cyntaf y llyfr. Rhoddion pryderfth iawn yw iechyd y corff a'r meddwl: tawelwch meddwl, tangnefedd. A gweithgarwch hardd iawn yw cael diolch am y rhoddion anghymharol hyn. Onid y llenor mawr o Rwsia Fyodor Dostoevsky a ddywedodd mai 'pryderfthwch fydd yn achub y byd'?

Diolch yw'r ddolen aur sy'n cydio pob rhan o'r gyfrol hon ynghyd. Diolch am bob gofal a chariad, yn arbennig yn y cyfnod pryderus hwn – gan feddygon, seiciatryddion a chwnselwyr; gweinidogion, offeiriaid a chaplainiaid; holl weithwyr y Gwasanaeth Iechyd; caredigion sy'n gofalu'n dyner o ddydd i ddydd am eu hanwyliaid yn eu cartrefi; cymwynaswyr rif y gwllith; a myrdd o asiantaethau dyngarol. Pawb, yn wir.


Mae ail hanner y gyfrol yn cynnwys teyrnged i'r seiciatrydd enwog y Dr David Enoch, Caerdydd, teyrnged sy'n seiliedig ar bortread ei frawd yng nghyfraith, Malcolm T Rees, Rhydaman.

Mae Dr Enoch yn awdur nifer fawr o erthyglau a chyfrolau adnabyddus, rhai ohonynt wedi'u cyfieithu i sawl iaith. Cafwyd llog argraffiad o'i gyfrol *Healing the Hurt Mind: Christian Faith and Clinical Psychiatry* (1983), ac ym mis Ionawr 2021 cyhoeddwyd pumed argraffiad o gyfrol a ystyrir yn un o glasurol y byd meddygol: *Uncommon Psychiatric Syndromes* (argraffiad 1af, 1967).

Yr un modd, gwerthfawr iawn yw ei unig gyfrol Gymraeg: *Y Deg Gorchymyn Heddiw ac Erthyglau Eraill* (Cyhoeddiadau'r Gair, 2014). Yn ogystal â'r erthyglau crefyddol â'u neges gyfoes, ceir yn y gyfrol bwysig hon amryw erthyglau sy'n ymwneud â seicoleg a seiciatryddiaeth, cyfraniadau arloesol, yn arbennig yn y Gymraeg. Mae un ohonynt, er enghraifft, yn cynnwys sylwadau treiddgar ar nofel Kate Roberts, *Tywyll Heno*.

Ychwanegodd yr awdur:

Yn rhan gyntaf *Meddyg y Galon Glwyfus*, hyfrydwch arbennig i mi oedd cael



cyflwyno hefyd bortreadau byrion, ynghyd â lluniau, o nifer o feddygon a seiciatryddion ardderchog iawn o Gymru y mae ein dyled iddynt yn fawr. O blith cymwynaswyr eraill y cefais y fraint o sôn amdanynt y mae Wynford Ellis Owen a Carol Hardy, Stafell Fyw Caerdydd; Pamela Evans, Treforys, sefydlydd Heddwch Mala i blant Cymru; a Rhian Evans, Caerfyrddin, a'i gwasanaeth amhrisiadwy i'r deillion, fel yr adroddir amdano ganddi yn ei chyfrol ddiweddar: *Siarad Cyfrolau: Speaking Volumes* (Llyfrau Llafar Cymru, 2021).

Mewn un adran o'r gyfrol rwy'n diolch am y fendith fawr a brofais innau o gael cyfle i wneud fy rhan fechan yng Nghaerdydd a'r cyffiniau i gynorthwyo'r anghenus. Gan gydweithio ag Eleri, fy mhriod, fy mraint fu gofalu am y digartref ac ymgyrchu ar ran carcharorion cydwybod mewn llawer gwlad sy'n parhau, er mawr gywilydd iddynt, â'r arfer farbaraid o boenyddio.

Gwneir apêl ddwys yn y gyfrol hefyd ar i Lywodraeth Prydain roi'r flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Iechyd ac i ymchwil meddygol, yn hytrach na gwario biliynau lawer ar filitariaeth ac arfau rhyfel a niwclear. Yng ngeiriau Pryderi Llwyd Jones:

Nid bomiau i ladd,  
Ond iechyd i'r claf.

Wedi talu'r costau, dosberthir unrhyw elw o werthiant y llyfr hwn rhwng dau achos arbennig o deilwng: y Stafell Fyw yng Nghaerdydd, a Gofal Dydd Waengoleugoed, ger Llanelwy, gyda'r Athro Mari Lloyd-Williams, Prifysgol Lerpwl, yn brif ysgogydd.

*Enoch's Walk – Ninety-five Not Out: Journey of a Psychiatrist* gan Dr David Enoch (clawr meddal, 368 tt; £14.99; Y Lolfa)

*Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl, a Chymwynas Fawr Dr David Enoch* gan Robin Gwyndaf (clawr caled; 231 tt; £15, â phob copi wedi'i rifo; Cyhoeddiadau'r Gair)



## Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

*Wrth arwain at dymor yr Adfent, fe fyddwn yn cyflwyno cyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).*

### 4 Deall Heddwch

#### Shalom a dibenion y nefoedd

Darllen: Luc 2:8-14

Ar 14 Chwefror 1990, fe dynnodd y llong ofod Voyager, a lansiwyd 13 mlynedd ynghynt, lun o'r Ddaear o bellter o 3.7 biliwn o filltiroedd. Daeth y ffotograff yn enwog fel 'The Pale Blue Dot', gan ein hatgoffa bod y byd helaeth a hyfryd hwn yr ydym yn byw ynddo, yng ngeiriau'r seryddwr Carl Sagan, 'yn ddim ond llygedyn o lwch wedi'i ddal ym mhelydr yr haul'.

Un o'r heriau inni fel bodau dynol yw ein bod yn aml yn cael anhawster i ddal gwirioneddau sy'n ymddangos fel petaent yn gwrthdaro gyda'i gilydd. Fe geir gwirionedd absoliwt ein harwyddocâd o fewn creadigaeth Duw, ond hefyd y gwirionedd darostyngol hwnnw ein bod yn gorfforol ddibwys o'i mewn. Mae yna fawredd na ellir ei wadu, ond hefyd fychander yn yr un modd. Gallwn greu harddwch anhygoel ond rydym hefyd yn awduron erchyllterau annisgrifiadwy. Gallwn ddangos meistrolaeth dros y bydysawd, ond eto'n analluog i feistrolï ein calonau a'n meddyliau ein hunain.

O fewn y tensiynau hyn yr ydym yn byw ac yn mwynhau eiliadau tawel o heddwch. Ond rydym bob amser yn ymwybodol o'r tueddiad i'r heddwch hwnnw gael ei chwalu gan ymyriadau creulon realiti llymach. Yn y lleoedd hyn gallwn gael ein temtio i ddod o hyd i gornel dawel feudwyol lle gallwn guddio a mwynhau ein heddwch cyfrin, llonydd ein hunain. Er hynny, dim ond ar draul cau'r drws ar leisiau eraill sy'n ein cynhyrfu, ond sydd hefyd yn dymuno cael eu cyfran o'r heddwch hwnnw, y gallwn wneud hynny. Maent yn gofyn am fyfyrddodau ysbrydol a moesegol yn y broses o'u helpu i sylweddoli'r heddwch hwnnw. Efallai mai dim ond un man byw ydym ni ar y dot glas gwelw hwnnw, ond rydyn ni wedi cael ein creu yn y fath fodd fel y gallwn ni, yn ein adegau gorau, ddeall a chofleidio ein cyfrifoldebau ehangach o'i fewn.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni fyw ar ddau ben y sbectrwm. Rydym yn byw mewn un man lle mae heddwch yn fater i fy enaid, er fy lles i, ar gyfer fy 'yma ac yn awr'. Mae'r heddwch hwn, fel y gwelsom eisoes, wedi'i rwymo'n rhan annatod o'm perthynas â'r


Duw a'm creodd yng Nghrist Iesu. Ond nid rhywbeth personol i mi yn unig yw heddwch; nid yw hyd yn oed yn unig ar gyfer fy nheulu neu fy nghymuned. Mae ar gyfer y byd yr ydym yn byw ynddo, ac yn ein munudau mwyaf eang mae ein meddyliau'n gwibio'r tu hwnt i'r dot glas gwelw a gallwn hyd yn oed ystyried sut y gall y cosmos ei hun ddod o hyd i heddwch newydd.

Os ydych chi wedi dod i'r tymor hwn o'ch bywyd yn ceisio heddwch, rwy'n gobeithio ac yn gweddïo y bydd y llyfr hwn, mewn rhyw ffordd fechan, yn eich helpu i ddod o hyd iddo neu ei gadw neu efallai ei ddatblygu. Ond os yw ein dealltwriaeth o heddwch yn parhau i droi o'n cwmpas ein hunain a'n hanghenion ein hunain, byddwn wedi methu. Mae heddwch Duw sydd uwchlaw pob gwybod, uwchlaw dealltwriaeth pawb, yn rhywbeth sy'n cwmparu'r greadigaeth gyfan, pob atom a moleciwl, pob dyn a dynes, pob anifail a phlanhigyn, pob mynydd ac afon, pob dot glas gwelw a phob dot arall o ba liw bynnag a hyrddiwyd i bellafoedd eithaf y gofod. Heddwch yw'r greadigaeth gyfan mewn cytgorod â'i chrëwr.

Deuwn o hyd i adleisiau o hyn yn yr ysgrythur. Efallai mai sibrydion distaw yw'r adleisiau, oherwydd bod gorwelion ysgrifenydd yr Hen Destament a'r Newydd yn rhai mwy cyfyng na'n rhai ni. Ond mae'r adleisiau yno, yn enwedig ar yr achlysuron neu yn y lleoedd hynny pan ddaw agosrwydd y nefoedd a'r ddaear yn 'lleoedd tenau' fel y galwai'r Cristnogion Celtaidd nhw.

Un lle o'r fath oedd llechwedd yng ngwlad Jwdea ar y noson yr ymddangosodd yr angylion. Golygfa sy'n ymddangos yn gyfarwydd inni, oherwydd y dramâu Nadolig di-ri a welsom gyda phlant bach wedi'u haddurno â gynau nos, lleiniau sychu llestri ac adenydd sgleiniog. Ar yr ochr mae'r ddau lwcus sydd wedi cael eu dewis i chwarae rhan Mair a Joseff, a'r lleill y bydd eu rôl fel defaid a geifr yn dal i adael mamau, tadau a neiniau a theidiau yn llaith eu llygaid!

Ond ar y noson ei hun, y noson gyntaf honno, lle tenau oedd hwn. Yn gyntaf daeth un angel a siarad, ac roedd y bugeiliaid wedi dychryn, fel y byddech chi'n ei ddisgwyl. Roedd 'Peidiwch â bod ofn' yn rhan o'r litwrgi, fel yr oedd pan ymddangosodd angel i Mair. Yna, ar ôl i'r angel cyntaf ddod, fe ddaeth



yna lu o angylion, lliaws o'r llu nefol. Lle bynnag y mae'r nefoedd a pha fath bynnag o le yw'r nefoedd, mae'n sicr fod cipolwg ar ei llysgenhaden angylaidd yn ddigon i ddychryn unrhyw un o'i groen! Ond roedd eu tystiolaeth yn ddigamsyniol: 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd!' (adn. 14)

Rydym yn barod iawn i dynnu sylw at ddiniweidrwydd yr hen fyfyrddod trillawr (y nefoedd uchod, uffern islaw a'r ddaear yn y canol), ond does gennym ni ddim syniad amgenach ein hunain. Y cyfan a wyddom yw fod yr angylion wedi dod i gyhoeddi mai gogoniant Duw sydd amlycaf yn y nefoedd, ac yma yn y lle tenau hwn, yma yn y pwynt hwn yn hanes dyn, rydym wedi dod i gyhoeddi bod heddwch wedi torri i mewn. Yn union fel yr oedd creu yn bwrpas gan Dduw ar y dechrau, felly nawr pwrpas Duw yw adfer a phrynu'n ôl.

Daeth yr angylion, llysgenhaden y nefoedd, gyda'r newyddion da yr oedd y bobl wedi wylu'n hir amdano. Roedd bywyd yn galed. Roedd y gymdeithas yn llygredig, hyd yn oed yn wylu'n pobl eu hunain, a rhai ohonynt bellach yn cydweithredu â'r gelyn – yn gasglwyr trethi. Roedd y cyneafau'n anghyson, trais yn gyffredin, disgwyliad oes yn fyr a meddiannaeth y Rhufeiniaid yn greulon. Doedd yr angylion ddim wedi dod i gael parti heddwch.

Ond roedden nhw wedi dod i gyhoeddi bod yr addewid ar fin cael ei chyflawni ar ôl cenedlaethau o aros am Feseia Israel. O fewn ychydig filltiroedd i'r llechwedd hwn ganwyd plentyn ym Methlehem. Roedd genedigaeth y plentyn yn addewid o heddwch ac yn bwynt allweddol yng nghynllun pryndegol Duw. Unwaith eto mae heddwch Duw a phresenoldeb Duw yn cael eu dolennu'n undod anwahanol.

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Hanes Eglwys y Groes, Llangwm

*(Dyma ail ran yr erthygl yn crynhoi hanes yr eglwys hon sy'n datlunio 200 mlynedd ers sefydlu'r achos eleni.)*

Bu'r 1920au yn gyfnod llewyrchus a datblygedig i Eglwys y Groes. Ym 1922 daeth Richard Evans o Aberllefenni yno'n weinidog (gan wasanaethu hyd ei farwolaeth ym 1939). Gwelwyd y capel yn cael trydan am y tro cyntaf ym 1923, a Hugh Hughes, y Felin, fu'n gyfrifol am sicrhau hynny. Ond tipyn o anfantais oedd y ffaith nad oedd hi'n bosib darparu tŷ i'r gweinidog. O'r herwydd, penderfynodd yr eglwys fach o ychydig dros hanner cant o aelodau adeiladu 'tŷ gweinidog', gan ychwanegu festri bwrpasol at y capel hefyd ar ôl cael y tir eto gan deulu Tyddyn Eli.

Ond roedd y gost adeiladu oddeutu £2,000 – ffigwr sylweddol yn y 1920au. Penderfynwyd cynnal ffair ac ocsiwn ym mis Awst 1924 a'r un a fu'n gyfrifol am y trefniadau fel 'Ysgrifennydd a Phrif Drefnydd' oedd David Jones, Pen-y-bont (1883–1944), disgynnydd i Thomas Ellis, Tyddyn Eli. Llwyddasant i gael elw o £1,000, a bu hynny'n dipyn o glod i David Jones, gŵr hynod o weithgar yn natblygiad yr achos yng Nghapel y Groes. Ymhlith ei swyddi bu'n ddiakon ac yn ysgrifennydd, ac ef hefyd oedd organydd y capel a dysgodd y Tonic Sol-ffa i genedlaethau o blant. Bu'n golled enfawr i'r ardal gyfan pan fu farw'n sydyn ym 1944. Ond erbyn hynny roedd ei fab, Emrys Jones, Pen-y-bont, ac ieuencid gweithgar yr ardal wedi sefydlu Cymdeithas Pobl Ieuainc yr Eglwys, a gwelwyd cychwyn yr Eisteddfod yn Llangwm dan eu harweiniad hwy yn ystod y tridegau. Gwelwyd hefyd ddau o blant yr eglwys yn mynd i'r weinidogaeth: y Parch. Hugh Iorwerth Jones, gweinidog Llangeler, a'r Parch. Islwyn Morgan a ordeiniwyd gan ei fam eglwys. Bu'r Parch. Islwyn Morgan yn barod iawn i wasanaethu'r eglwys mewn cyfnodau heb weinidog.



Capel y Groes, Llangwm

## Gweinidogion triw

Ym 1941 rhoddwyd galwad i R. Charles Jones, BA, myfyriwr o Goleg Bala-Bangor, cyn iddo dderbyn galwad o Fethania, Blaenau Ffestiniog, a hynny ym 1946. O 1948 hyd at 1952, daeth y Parch. O. J. Hughes, BA, i'r cylch o Fwlchgwyn a Llandegla, ac o 1955 i 1957, gwasanaethwyd yr eglwys gan y Parch. Trefor Evans.

Ym 1958, daeth y Parch. Wyn Evans yn weinidog i'r cylch – brodor o Lanbryn-mair a brawd i'r Parch. R. Alun Evans – a bu yn Llangwm hyd 1963. Yna, ym 1966, ymunodd yr eglwys â Gofalaeth Annibynwyr y Bala a gwasanaethwyd y Groes gan y Parch. R. Gwilym Williams. Bu'n weinidog yn Llangwm hyd nes iddo ymddeol ym 1983, wedi dwy flynedd ar

bymtheg o wasanaeth ffyddlon. Y Parch. Rhys Tudur o Waelod y Garth ddaeth yn weinidog i'r Groes ym 1983 a hynny am bum mlynedd. Ym 1991, gwasanaethwyd yr eglwys gan y Parch. Rhisiart Gareth Huws a bu yn Llangwm nes iddo ymddeol yn 2011.

## Newidiadau

Bu farw Emrys Jones, Pen-y-bont, yn 2009 wedi oes hir yn gwasanaethu Eglwys y Groes fel diacon, athro ysgol Sul, codwr canu ac ysgrifennydd. Ers hynny, profodd capeli'r cylch gryn newid. Lleihaodd yr aelodau, daeth diwedd i'r eisteddfod a chaewyd yr ysgol yn y pentref. Cyfnod heriol i Eglwys y Groes a sefyllfa y gall sawl cymdeithas wledig arall uniaethu â hi. Ond, pan ddaw hi'n adeg gwasanaeth diolchgarwch, y Nadolig, y Pasg, y Cyfarfod Bach, priodas neu fedydd, braf yw gweld yr hen gapel bach yn llawn unwaith eto, o'r aelod ieuengaf i'r aelod hynaf, ynghyd â chefnogaeth cyfeillion a chymdigion yr ardal ehangach.

Bellach, mae capeli'r cylch wedi uno o dan Ofalaeth Bro Uwchaled gyda'r Parch. Huw Dylan Jones, Llangwm, yn weinidog mewn gofal. Ef wnaeth fedyddio aelod ieuengaf yr Eglwys yng Nghapel y Groes ar 19 Medi, 2021, sef Neli Swyn, Pen-y-bont, Llangwm: gor-gor-gor-gor-gor-wyres i'r Parch. Thomas Ellis, Tyddyn Eli.

**Dr Alaw Mai Edwards**

## Myfyrdod: dechrau newydd

### Llyfr Esra 3: 1–13: Cyn darllen y myfyrdod, darllenwch yr adnod hwn.

Y cefndir i lyfr Esra yw bod pobl Jiwda wedi eu caethgludo i Fabilon yn 605, 597 a 587/6 cyn Crist, oherwydd eu hanufudd-dod i Dduw. Wedi iddo orchfygu Babilon yn 539 c.C., cyhoeddodd Cyrus, brenin Persia, fod lleiafrifoedd ethnig yr ymerodraeth yn rhydd i fynd yn ôl i'w gwledydd eu hunain. Ceir yr hanes yn 2 Cronicle pennod 36: 22.

Aeth y fintai gyntaf o Iddewon yn ôl i Jiwda tua 537 c.C. a dychwelodd rhagor gydag Esra oddeutu 458cc. Anfonwyd Esra i Jerwsalem gan y brenin Artaxerxes i lunio adroddiad ar y sefyllfa. Diben llyfr Esra yw cofnodi eu hymgaib i ailsefydlu cymuned o bobl gyfamodol Duw gan roi dechrau newydd iddynt. Roedd addewidion Duw trwy'r proffwyd yn



dweud y byddent yn dychwelyd i'w gwlad oherwydd o'u plith hwy y byddai'r Meseia'n dod. (Gweler Jeremeia 3: 10–11) Yma y mae hefyd anogaeth i ni Gristnogion yn y cyfnod anodd hwn gyda'r haint, i roi lle canolog i addoli Duw, i ymddiried ynddo yn llwyr ac i

fyw mewn ufudd-dod i'w air.

Wedi i'r bobl ddychwelyd yn ôl i Jerwsalem gwelsant fod y lle yn anghyffannedd. Roedd y waliau a'r deml wedi eu dinistrio yn llwyr a'r gogoniant a fu wedi diflannu. Ystyriwn yma:

### Ail-gyfle

Mae dechrau o'r newydd bob amser yn bosibl gyda Duw, waeth pa mor wael ac isel y mae pethau'n mynd yn ein hanes. Gallwn ddweud hyn fel unigolion ac fel Eglwys. Nid oes nos yn bodoli sydd mor dywyll fel nad yw goleuni cariad Duw yn



Capel y Groes - tu fewn



# Golygyddol

## EMYN I GYMRU 2021

Nos Sul 31 Hydref, 2021, ro'n i'n falch o gael eistedd i lawr ac edrych ar y rhaglen *Dechrau Canu Dechrau Canmol* a gweld mai'r emyn a ddaeth uchaf ar y rhestr oedd emyn John Roberts, Llanfwrog. Llanfwrog meddwn i, oherwydd mi fedrwn i ddweud Carneddi neu Porthmadog, Bala neu Caernarfon, gan i John weinidogaethu yn y pedwar lle yna. Ond 'nôl i'w hen gartref ym mhellafoedd Môn yn Llanfwrog yr aeth i ymddeol, ac fel John Roberts Llanfwrog y câi ei adnabod yn ei



flynyddoedd olaf, ac oedd, a dwi'n falch o gael dweud hyn, mi roedd o'n un o ffrindiau agos fy nhad gan i'r ddau gyd-weinidogaethu yn Nyffryn Madog yn ystod y pedwardegau a'r pumdegau a chadw'r cyswllt gydol y blynyddoedd wedyn.

### Llonyddwch brau

Gŵr addfwyn iawn oedd John Roberts ond un hynod alluog. Bardd

da a phregethwr dylanwadol na fyddai byth yn brin o atgoffa'i gynulleidfa o sylfeini'r ffydd Gristnogol. A dyma i mi holl ogoniant yr emyn – mae'n emyn heddwch sy'n seiliedig ar y Groes. 'Llefara dy dangnefedd yma nawr, a dangos inni greithiau

d'aberth mawr.' 'Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd, ni ddaw o'r ddaear ond llonyddwch brau ...' A da ydi'r ddau air yna, 'llonyddwch brau', rhywbeth nad yw'n para. Ond mae'r Groes a'i heffaith yn arhosol ar fywyd y Cristion, ac o ganlyniad, yn effeithio bywyd yn ei gyfanrwydd. A dweud y gwir mi fyddai'n werth i bob un ohonom edrych o'r newydd ar yr emyn – rhif 375 yn *Caneuon Ffydd* – a'i gymhwyso ar gyfer sefyllfaoedd unigol, cenedlaethol a rhyngwladol.

### Aberfan

Ac wrth gwrs mae'r dôn 'Bro Aber' yn anhepgorol i anfon neges yr emyn adref. Gadewch inni hefyd atgoffa'n hunain mai er cof am y 144 a laddwyd yn nhrychineb Aberfan (1966) y cyfansoddwyd y dôn gan J. Haydn Phillips, a'r cyfanwaith yn codi'r to yng nghymanfa ganu Eisteddfod Genedlaethol Môn 1983 pan y'i clywyd hi am y tro cyntaf. O hynny ymlaen, ar garlam yr aeth y dôn a'r emyn. Gobeithio y bydd y geiriau yn para i gydio ymhob cenedlaeth rhag i'r 'arfog cry' orthrymu'r gwan.'

Iwan Llewelyn



## Myfyrdod: dechrau newydd – o dudalen 6

Iesu yn gallu treiddio trwyddo. Mae Duw yn Dduw yr ail gyfle. Ystyriwch fywyd Dafydd Frenin, Jona, Pedr, Paul a dameg y Samariad trugarog.

### Allor

Y peth cyntaf y mae'r bobl yn ei wneud wrth gychwyn ar y gwaith o adfer y deml yw ailadeiladu'r allor (ad. 6 ymlaen), nid y waliau ac nid y colofnau. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bod Duw wedi neilltuo'r allor ar gyfer aberthau oedd yn cymodi pobl gyda Duw. Roedd cychwyn aberthu yn eu galluogi i fyw mewn perthynas agored ac iach gyda Duw. Mae hyn yn gysgod o'r Iesu'r aberth perffaith, fu farw dros bechodau dynoliaeth er mwyn dod a ni i berthynas â Duw. Trwy'r Iesu y mae cychwyn newydd i bawb. Os ydan ni wedi pellhau oddi wrth Dduw neu wedi crwydro yn ein bywydau a chefnu yn ein calonnau neu erioed wedi credu, y newyddion da yw trwy Iesu allwn gychwyn ein perthynas gyda Duw. Y mae Duw yn ein gwahodd ato yn gynnes.

### Y Gair

Yn Esra 3:2 dywedir, 'fel y mae'n ysgrifenedig yng nghyfraith Moses gŵr Duw.' Er eu bod wedi bod yn alltud ym

Mablon am 70 mlynedd troesant at air Duw am arweiniad. Nid dychmygu dychmygion a wnaethant neu ddyfeisio rhyw ffordd o weithredu ond troi at yr ysgrhythur, cyfraith Dduw. Mor bwysig yw i ninnau droi at air Duw, sef y Beibl, am arweiniad ym mhob sefyllfa y byddwn yn ei wynebu.

### Tŷ Dduw

Ac yn olaf roedd dechrau newydd yn golygu adeiladu tŷ Dduw, sef y deml, ac yn eu hanes hwy roedd hynny'n rhywbeth llythrennol. Esra 3:6,9,10. Heddiw ni yw teml Dduw mewn ffordd arbennig, pobl Iesu, tŷ'r Arglwydd.

'Ydych chi ddim yn sylweddoli mai chi gyda'ch gilydd ydy teml Dduw, a bod Ysbryd Duw yn aros yn y deml yna?' (1 Corinthiaid 3:16)

Yn y deml yr oedd presenoldeb Duw mewn ffordd arbennig ac yno yr oeddent yn ei addoli a'i wasanaethu. Heddiw, ni fel eglwys yw teml Dduw, y mae ei bresenoldeb gyda'i bobl mewn ffordd arbennig trwy'r Ysbryd Glân. Ein baint wrth ail ddechrau ar ôl pandemig COVID-19 yw ei addoli a'i wasanaethu yn llawn brwdfrydedd.

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

## Cyrsiau'r Hydref

**Darllen, deall a dehongli**  
**Gair Duw heddiw –**  
**Astudio'r Beibl yn ein**  
**cyd-destun ni**

**7 o'r gloch,**  
**nos Lun 29 Tachwedd -**  
**Testament Newydd y Beibl**

CATRIN HAF WILLIAMS  
Diwinyddiaeth ac Astudiaethau  
Crefyddol, PCYDDS

**Croeso cynnes iawn i bawb**

**Bydd pob cwrs ar-lein eleni**

Manylion pellach a dolenni Zoom  
oddi wrth  
aled@colegyrannibynwyr.cymru



**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:****Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Golygyddion**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.comAlun Lenny  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888

E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol  
gan Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Diwygio neu ddifodiant

Yn ystod cynhadledd COP26 bu gwrthdystiadau ar hyd a lled Cymru ar ddydd Sadwrn 6 Tachwedd yng Nghaerdydd, Bangor, Rhuthun, Llangollen, Y Drenewydd, Caerffili, Pontypridd, Abertawe a Chaerdydd yn tynnu sylw at faterion amgylcheddol a'r angen i arweinyddion y cenhedloedd i weithredu'n ddiymddroi i atal y cynnydd sydd yn nhymeredd cyfartalog y ddaear. Bellach y mae gwyddonwyr wedi profi bod llygredd ac allyriadau CO<sub>2</sub> a methan yn gyfrifol am newid hinsawdd sy'n cynyddu tymheredd y byd gan achosi, llyfogydd, sychder a stormydd ffyrnig.

Dywed Cytûn ar eu gwefan, 'Trwy gydol yr Ysgrythur gwelwn gariad Duw tuag at y byd hwn. "Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder," medd y Salmiudd (Salm 24:1). Ond gyda stormydd cryfach nag erioed, cyfnodau o sychder difrifol a thymheredd y ddaear ar gynydd, rydym yn gweld y greadigaeth yn cael ei thaflu oddi ar ei hechel – ac, o ganlyniad, pobl yn cael eu gwthio'n ôl i dlodi. Os ydym wir i garu'n cymdogion ledled y byd, rhaid i ni fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.'

Yng Nghaerdydd gorymdeithiodd dros 4 mil o bobl fywiog o Neuadd y Ddinas i lawr i'r Senedd yn y bae. Yr oedd cynrychiolaeth eang yno o amrywiol fudiadau cadwriaethol lleol a



*Y Parchg Anna Jane yn annerch y dorf ym Mangor*

byd-eang, Undebau Llafur, a mudiadau Cristnogol fel Cymorth Cristnogol, Tearfund a Cafod.

Ymgynullodd y mudiadau Cristnogol hyn cyn yr orymdaith yn Eglwys Dewi Sant er mwyn gweddio a gwrando ar bryder mawr yr elusennau am y modd yr ydym yn treisio cread Duw trwy ein trachwant. Y bobl sy'n dioddef fwyaf o ganlyniad i'n hymddygiad anghyfrifol yw'r tlawd a'r difreintiedig. Rhaid diwygio ein hymddygiad fel dynoliaeth neu wynebu dioddefaint ac efallai

difodiant. Braf oedd gweld yr eglwys yn llawn o bobl oedd yn cymryd gorchymyn Duw i fod yn stiwardiaid doeth o'i greadigaeth o ddifrif. Rhaid gweithredu nawr er mwyn dyfodol ein plant a'n hwyryon.




*Ymgynnull y tu allan i eglwys Dewi Sant Caerdydd*

## Dyfal donc: stori Tantely



Cyrhaeddodd Tantely ganolfan Akany Avoko Faravohitra yn 2016. Roedd hi'n anllhythrennog. Diolch i gefnogaeth Money for Madagascar, fe'i haddysgwyd hi gan ddefnyddio system ASAMA\* ac enillodd hi ei diploma CEPE [ysgol gynradd] yn 2018. Dilynodd gwrs hyfforddiant galwedigaethol hefyd mewn trin gwallt a harddwch yn 2019. Safodd Tantely ei harholiad BEPC [tebyg i TGAU] eleni, 2021, yn anffodus, methodd hi'r tro hwn. Fodd bynnag, mae hi am barhau gyda'i breuddwyd ac am ailsefyll ei harholiad BEPC ym mlwyddyn ysgol 2021–2. Dymunwn bob llwyddiant iddi.

\* ASAMA (Action Scolaire d'Appoint pour les Malgaches Adolescents) = Gweithredu dros Addysg Gynhwysol ym Madagascar.



*Pan oedd Iesu'n annerch y bobl dro arall, dwedodd, "Fi ydy golau'r byd. Budd gan y rhai sy'n fy niilyn i olau i'w harwain nhw i fywyd, a fyddan nhw byth yn oerdded mewn tywyllwch."*

*- Ioan 8:12*